FFAIR AEAF CAFC 2026

Beth sy'n newid i Arddangoswyr Da Byw yn Ffair Aeaf CAFC 2026

Rydym yn cyflwyno rhai newidiadau i'r ffordd y byddwch yn cael mynediad i Faes y Sioe yn y Ffair Aeaf eleni, er mwyn cydymffurfio â rheoliadau newydd y llywodraeth. Rydym yn gwerthfawrogi eich cefnogaeth a'ch cydweithrediad wrth gyflwyno'r system hon, a bydd y Tîm Da Byw yn helpu gydag unrhyw ymholiadau. Isod ceir crynodeb byr o'r newidiadau.

E-BASIAU CERBYDAU

Bydd E-Basiau Cerbydau ar gael i chi eu lawrlwytho drwy eich cyfrif CAFC ar-lein. Ni anfonir dim atoch drwy'r post. Yn hytrach, byddwch yn derbyn pas cerbyd electronig gyda chôd bar cyn i chi gyrraedd. Rhaid arddangos hwn ar eich cerbyd

Rhaid i docynnau cerbydau a charafanau gael eu HARGRAFFU MEWN LLIW er mwyn cael mynediad i'r safle. Ni dderbynnir tocynnau du a gwyn.

E-DOCYNNAU MYNEDIAD

Wrth gyrraedd y fynedfa Da Byw, bydd angen i chi gyflwyno eich **Tocyn(nau) Mynediad Electronig Côd-QR**, er mwyn iddynt gael eu sganio. Sicrhewch fod gan **bob person sy'n teithio yn y cerbyd ei E-Docyn unigol ei hun**, gan fod rhaid sganio pob E-Docyn Côd-QR cyn y caniateir mynediad.

Bydd pob tocyn a thaleb ar gael i'w lawrlwytho a'u hargraffu drwy eich cyfrif CAFC Ar-lein

Unwaith y bydd yr holl E-Docynnau wedi'u sganio, byddwch yn gallu bwrw ymlaen i ddadlwytho eich stoc.

Gallwch brynu E-Docynnau ychwanegol drwy eich cyfrif CAFC ar-lein neu wrth y giât.

DATGANIADAU

Er mwyn symleiddio'r broses gyrraedd a lleihau amseroedd aros mewn ciw, gofynnir yn garedig i bob Arddangoswr Da Byw gwblhau'r holl ddatganiadau gofynnol yn llawn cyn cyrraedd. Bydd y rhain yn cael eu hanfon atoch drwy e-bost yn y cyfnod cyn y digwyddiad. Wrth gyrraedd y giât fynediad, bydd y datganiadau wedi'u cwblhau yn cael eu casglu a'u dilysu cyn y caniateir mynediad.

PASIAU CARAFANAU

Os ydych wedi sicrhau lle i garafan, bydd angen i chi argraffu eich tocyn carafan **mewn lliw** a'i arddangos yn y cerbyd sy'n tynnu'r garafan. Mae eich tocyn carafan yn cynnwys dwy ran – un ran i'w harddangos yn y cerbyd sy'n tynnu'r garafan, a'r rhan arall i'w harddangos yn ffenestr flaen eich carafan.

Sicrhewch fod gan **bob teithiwr yn y cerbyd E-Docyn Mynediad dilys,** gan y bydd eu hangen i fynd i mewn i faes y sioe.

CASGLU ARDDYRNRWYMAU

Bydd modd casglu eich arddyrnrwym sydd â Chôd-QR yn y lleoliadau isod, ar yr un pryd â chasglu amlenni/rhifau arddangoswyr.

Defaid a Moch: Dylid casglu amlenni arddangoswyr wrth gyrraedd y sied da byw berthnasol.

Gwartheg: Dylid casglu amlenni arddangoswyr o'r Sied Wartheg.

PAM NEWID?

Mae trefnwyr digwyddiadau yn gorfod adolygu'r holl systemau mynediad er mwyn sicrhau bod aelodau'r cyhoedd yn ddiogel a bod modd cadw golwg arnynt, oherwydd cyflwyno 'Cyfraith Martyn' (Deddf Diogelu Adeiladau rhag Terfysgaeth 2025). Mae profiadau arddangoswyr yn bwysig, a thrwy gydweithio i baratoi ar gyfer y broses fynediad, y gobaith yw y bydd y newidiadau hyn o fudd i bawb.

Rhestr wirio cyn gadael y cartref

- ✓ Argraffwch eich tocyn unigol ar gyfer cerbyd a/neu garafan **mewn lliw**
- ✓ Tocyn(nau) Electronig chôd QR – Wedi'u Hargraffu neu wedi'u Lawrlwytho/Sgrinlun
- ✓ Cwblhewch ddatganiadau yn llawn

Os oes angen unrhyw gymorth arnoch cyn y digwyddiad, cysylltwch â'r tîm da byw, sy'n barod i helpu.

Hoffem ddiolch i chi ymlaen llaw am eich Cydweithrediad Pwyllgor Ffair Aeaf Frenhinol Cymru